Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015

Datganiad caethwasiaeth fodern a masnachu pobl – Prifysgol Glyndŵr Wrecsam

1. Cyflwyniad

1.1 Mae caethwasiaeth fodern yn drosedd ac yn ymyriad â hawliau dynol sylfaenol. Mae'n digwydd mewn sawl ffurf, megis caethwasiaeth, caethwasanaeth, llafur gorfodol a masnachu pobl, pob un yn rhannu'r elfen gyffredin o un unigolyn yn amddifadu unigolyn arall o'i ryddid er mwyn eu defnyddio er mantais personol neu fasnachol.

1.2 Mae Prifysgol Glyndŵr Wrecsam wedi ymrwymo i wella ei harferion i atal caethwasiaeth a masnachu pobl.

1.3 Gwneir y datganiad hwn yn unol ag Adran 54(1) Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 ac mae'n cynrychioli datganiad caethwasiaeth fodern a masnachu pobl Prifysgol Glyndŵr Wrecsam am y flwyddyn ariannol yn diweddu 31 Gorffennaf 2018.

2. Strwythur y sefydliad

2.1 Mae'r Prifysgol Glyndŵr Wrecsam yn ddarparydd dysgu, addysgu ac ymchwil yn y sector Addysg Uwch.

2.2 Gellir olrhain tarddiad y Brifysgol yn ôl i 1887 pan ddechreuodd Coleg Celf a Gwyddoniaeth Wrecsam ddarparu addysg am y tro cyntaf a dechreuodd gynnig graddau gan Brifysgol Llundain yn 1892.

2.3 Bu nifer o newidiadau i'r enw cyn i Sefydliad Addysg Uwch Gogledd Ddwyrain Cymru ddod yn Brifysgol Glyndŵr yn 2008, gan ei gwneud yn un o'r prifysgolion ieuengaf yn y Deyrnas Unedig.

2.4 Mae'r Brifysgol yn darparu addysg uwch i bobl gogledd ddwyrain Cymru a'r ardal drawsffiniol, gan chwarae rôl hanfodol bwysig ym mywyd cymdeithasol, economaidd a diwylliannol y rhanbarth. Hefyd mae'n denu cofrestriadau sylweddol gan fyfyrwyr o rannau eraill o'r Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol. Mae'n gweithio'n agos gyda chyflogwyr i sicrhau eu bod yn cael gweithlu gyda chymwysterau a sgiliau addas yn ogystal â darparu gwasanaethau ymchwil a datblygu mewn meysydd arbenigol.

2.5 Mae'r Brifysgol yn cael ei chydnabod yn eang fel un o'r prifysgolion arweiniol o ran cefnogi myfyrwyr o gefndiroedd economaidd a chymdeithasol is.

2.6 Mae myfyrwyr o Gymry yn parhau i ffurfio rhan bwysig o boblogaeth myfyrwyr y Brifysgol. Mae nifer arwyddocaol o'r rhain yn siarad Cymraeg neu'n dymuno gwella eu sgiliau Cymraeg ac mae'r Brifysgol yn cadarnhau ei hymrwymiad i hwyluso hyn. Mae Prifysgol Glyndŵr yn gweithio gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gyflawni hyn, a fydd yn cynnwys datblygu adnoddau a chymorth ychwanegol, ehangu'r rhaglenni astudio academaidd a'r lleoliadau gwaith. Mae'r Brifysgol hefyd wedi ymrwymo i gyflawni ei goblgyiadau dan Safonau'r Gymraeg.

2.7 Mae mwyafrif helaeth myfyrwyr y Brifysgol yn dod i brif gampws y Brifysgol ar Ffordd yr Wyddgrug yn Wrecsam, er ei bod yn gweithredu o'r campws ar Stryt y Rhaglaw yn Wrecsam a safleoedd yn Llanelwy, Llaneurgain a Brychdyn hefyd.

2.8 Mae gan y Brifysgol drosiant blynyddol byd-eang o £37miliwn.

3. Cadwyni cyflenwi

3.1 Mae'r Brifysgol yn aelod o Gonsortiwm Pwrcasu Addysg Uwch Cymru a Chonsortiwm Pwrcasu Prifysgolion y Gogledd Orllewin. Fel aelod mae ei chadwyni cyflenwi yn cael eu sianelu trwy'r consortia yn bennaf. Mae gan Gonsortiwm Pwrcasu Prifysgol y Gogledd Orllewin ei ddatganiad ei hun ar Gaethwasiaeth Fodern ac mae copi ynghlwm fel Atodiad i'r ddogfen hon.

3.2 Mae Consortiwm Pwrcasu Addysg Uwch Cymru yn bwriadu creu ei ddatganiad cydymffurfiaeth ei hun, ond mae hwn sy'n waith ar y gweill ar hyn o bryd. Yn achlysurol mae'r Brifysgol yn caffael ar raddfa lai gan sefydliadau y tu allan i'r consortia ac mae yn y broses o gynnal ymarfer mapio'r cadwyni cyflenwi, a fydd yn ei dro yn hysbysu dadansoddiad asesu'r risg o ran y cadwyni cyflenwi hynny y tu allan i'r consortiwm.

4. Polisïau ar gaethwasiaeth a masnachu pobl

4.1 Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo (cyn belled ag y bo'n rhesymol bosibl) i sicrhau nad oes unrhyw gaethwasiaeth fodern na masnachu pobl yn ei gadwyni cyflenwi nac unrhyw ran o'i busnes.

4.2 Yn sgîl yr ymrwymiad i adrodd ar fesurau i sicrhau bod holl rannau ei busnes a'r cadwyni cyflenwi yn rhydd o gaethwasiaeth, mae'r Brifysgol wedi adolygu ei pholisïau a'i gweithdrefnau ei hun o ran y gweithle i asesu eu heffeithiolrwydd yn adnabod a mynd i'r afael â materion caethwasiaeth fodern.

4.3 Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau hyn o ran y gweithle yn dangos ymrwymiad y Brifysgol i weithredu'n foesegol a chydag uniondeb yn ei holl berthnasoedd busnes ac i weithredu a gorfodi systemau a rheolaethau effeithiol i sicrhau (cyn belled ag y bo'n rhesymol bosibl) nad yw caethwasiaeth na masnachu pobl yn digwydd yn unrhyw le yn ei chadwyni cyflenwi.

4.4 Mae'r Brifysgol yn gweithredu'r polisïau isod sy'n cyfrannu at ei hymdrechion i atal caethwasiaeth a masnachu pobl yn ei gweithrediadau.

4.4.1 Polisi Chwythu'r Chwiban. Mae'r polisi hwn yn darparu dulliau diogelu i alluogi staff i fynegi pryderon am gamweinyddu yng nghyswllt Prifysgol Glyndŵr Wrecsam. Y nod yw darparu mecanwaith cyflym ar gyfer mynegi pryderon gwirioneddol yn fewnol heb ofni ôl-effeithiau, hyd yn oed os canfyddir bod y pryderon yn rhai disail. Mae Prifysgol Glyndŵr Wrecsam wedi ymrwymo i'r safonau uchaf o ran gonestrwydd, uniondeb, atebolrwydd a bod yn agored ac mae'n annog ei staff i fynegi pryderon gwirioneddol am gamymddygiad ar y cam cynharaf posibl gan wybod y bydd eu pryderon yn cael sylw dyledus ac yn cael eu hymchwilio. Mae camymddygiad yn y Brifysgol yn cael ei ystyried yn fater difrifol iawn.

4.4.2 Cod Ymddygiad Cyflogeion. Mae hwn wedi'i ymgorffori mewn Siarter Staff a'r pwrpas yw nodi'n glir ddisgwyliadau'r Brifysgol gan ei staff ac, yn bwysicaf oll, i rannu ymrwymiadau'r Brifysgol i'w staff.

4.4.3 Polisi Recriwtio a Dethol. Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i ddenu a chadw staff sy'n perfformio ar lefel uchel sy'n gallu gwneud cyfraniad gwerthfawr i lwyddiant y Brifysgol. Mae'r Polisi a'r Weithdrefn Recriwtio a Dethol Staff yn llunio fframwaith ar gyfer cyflawni rhagoriaeth ymhob agwedd o arferion recriwtio'r Brifysgol.

4.4.4 Polisi Caffael. Bydd swyddogaeth gaffael Prifysgol Glyndŵr yn darparu arbenigedd caffael proffesiynol i'r Bwrdd Llywodraethwyr, y Tîm Gweithredol a'r staff. Bydd yn cyfrannu'n llawn at gyflawni nodau ac amcanion y Bwrdd ac yn parhau i godi proffil caffael trwy'r Brifysgol, gan sicrhau bod anghenion busnes y Bwrdd yn cael eu bodloni trwy brynu nwyddau, gwasanaethau a chontractau a bod nodau ac amcanion Polisi Llywodraeth Cymru yn greiddiol i'w weithgareddau caffael. Bydd hefyd yn cyfeirio at ofynion Cyngor Cyllido

Addysg Uwch Cymru ac amcanion amgylcheddol, cynaliadwyedd a moesegol y Brifysgol. Mae'r Cynghorydd Caffael ym Mhrifysgol Glyndŵr yn aelod o Weithgor Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a ffurfiwyd i ddarparu fforwm i drafod a gweithredu'r Cod Ymarfer: Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi ymhlith cymuned y Sector Addysg Uwch yng Nghymru. Mae Cylch Gwaith y Gweithgor ynghlwm yn Atodiad 2 i'r ddogfen hon. Bydd y swyddogaeth gaffael yn rheoli ac yn datblygu ei gyflenwyr a'i sail cyflenwyr yn rhagweithiol, gan adnabod a rheoli unrhyw risgiau cyflenwi.

4.4.5 Polisi Gwrth-lwgrwobrwyo. Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i sicrhau bod safonau uniondeb uchel yn berthnasol i'w holl feysydd gweithredu a bod ei holl fusnes yn cael ei gynnal mewn modd gonest a thryloyw. Fel sefydliad addysgol ac elusen sy'n cael cyfran arwyddocaol o'i incwm o gronfeydd cyhoeddus a gan roddwyr a mudiadau gwirfoddol, mae'r Brifysgol yn awyddus i ddiogelu ei hun a'i chyllidwyr, rhoddwyr, cyflogeion a myfyrwyr rhag effeithiau andwyol sy'n gysylltiedig â llwgrwobrwyo ac unrhyw weithgareddau llwgr eraill. Felly mae wedi ymrwymo i atal llwgrwobrwyo a thwyll gan staff ac unrhyw drydydd parti sy'n cyflawni gwasanaethau ar ran y Brifysgol. Mae'r Brifysgol yn sylweddoli y bydd y risg o dwyll a llwgrwobrwyo yn codi mewn amrywiol gyd-destunau a bydd yn ceisio cynghori, hysbysu a/neu hyfforddi ei gyflogeion yn briodol i asesu'r risg o dwyll a llwgrwobrwyo'n digwydd a gweithredu arferion a fydd yn lleihau'r risg o hynny'n digwydd neu beidio â chael ei ganfod lle nad yw prosesau sy'n bodoli yn eu lle eisoes.

4.4.6 Polisi Buddsoddi Moesegol Rheolaeth Trysorlys. Mae'r Brifysgol yn ei gwneud yn ofynnol i'w swyddogion dalu sylw dyledus i lywodraethu corfforaethol perthnasol ac ystyriaethau cymdeithasol, moesegol ac amgylcheddol wrth ddewis, cadw a gwireddu ei holl fuddsoddiadau trysorlys. Mae Pwyllgor Strategaeth a Chyllid y Bwrdd Llywodraethwyr yn disgwyl i hyn gael ei wneud mewn modd sy'n cyd-fynd ag amcanion buddsoddi a dyletswyddau cyfreithiol y Brifysgol.

4.4.7 Datganiad Gwerth am Arian. Mae Prifysgol Glyndŵr yn cydnabod ei gyfrifoldeb i sicrhau gwerth am arian o'i holl weithgareddau, sut bynnag y maent yn cael eu cyllido. Yn benodol, mae ganddi ddyletswydd gofal i sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei wario ar y dibenion a fwriadwyd a'i bod yn sicrhau gwerth da am arian. Mae'r Brifysgol hefyd wedi ymrwymo i hyrwyddo effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a darbodusrwydd wrth gyflawni ei gweithgareddau corfforaethol ac academaidd. Bydd yn ceisio mabwysiadu arferion da a chynnwys egwyddorion gwerth am arian yn ei holl weithgareddau.

4.4.8 Rheoliadau Arferion Ymchwil. Mae Prifysgol Glyndŵr yn tanysgrifio i God Ymarfer Ymchwil Swyddfa Uniondeb Ymchwil y Deyrnas Unedig a gyhoeddwyd ym mis Medi 2009. Mae'r Cod Ymarfer yn berthnasol i sefydliadau ymchwil ac i ymchwilwyr a bydd yn ymdrechu i fodloni'r holl oblygiadau mae'r Cod yn ei roi ar sefydliadau ymchwil. Mae'r holl ymchwil a wneir yn neu dan awdurdod y Brifysgol yn ei gwneud ofynnol cynnal adolygiad moesegol a chael cymeradwyaeth cyn y caniateir dechrau casglu data. Yn benodol, mae'n rhaid i'r rhai sy'n arwain neu'n goruchwylio ymchwil sy'n cynnwys cyfranogwyr dynol (yn cynnwys, ond heb ei gyfyngu i holiaduron, cyfweliadau, samplau dynol ac ymchwil clinigol) neu anifeiliaid sicrhau cymeradwyaeth gan Is-bwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol fel sy'n ofynnol gan Ganllawiau'r Is-bwyllgor Moeseg Ymchwil sydd mewn grym ar y pryd, ynghyd ag unrhyw adolygiad allanol a/neu gymeradwyaeth sy'n ofynnol yn y maes astudio dan sylw, cyn dechrau'r gwaith ymchwil.

5. Prosesau diwydrwydd dyladwy o ran caethwasiaeth a masnachu pobl

5.1 Fel rhan o'i menter i adnabod a lleddfu risgiau mae'r Brifysgol yn gweithio gyda Chonsortiwm Pwrcasu Prifysgolion y Gogledd Orllwein a'i gyflenwyr cysylltiedig i:

- Asesu'r meysydd risg potensial yn ei gadwyni cyflenwi
- Lleihau'r risg o gaethwasiaetn a masnachu pobl yn ei gadwyni cyflenwi

- Monitro'r meysydd risg potensial yn ei gadwyni cyflenwi
- Diogelu'r rhai sy'n chwythu'r chwiban.

6. Cyflenwyr yn cadw at werthoedd y Brifysgol

6.1 Nid yw'r Brifysgol yn goddef caethwasiaeth a masnachu pobl o gwbl. Er mwyn sicrhau bod y rhai yn ei chadwyni cyflenwi a chontractwyr yn cydymffurfio gyda'i gwerthoedd mae'n meddu ar system o gaffael gan ddau gonsortia pwrcasu, a nodwyd yn adran 3 uchod, lle bynnag y bo'n bosibl ac mae'n chwarae rhan weithgar yn gweithio gyda'r consortia i sicrhau bod eu polisïau wrth ddyfarnu contractau yn cydymffurfio gyda'r Ddeddf Caethwasiaeth Fodern.

7. Hyfforddiant

7.1 Mae'r Cynghorydd Caffael yn derbyn hyfforddiant ychwanegol i gael ***"Statws Siartredig"*** Aelod y Sefydliad Siartredig Caffael a Chyflenwi (MCIPSP) i ddangos ymrwymiad i arferion caffael a chyflenwi moesegol. Er mwyn sicrhau lefel uchel o ddealltwriaeth ynghylch y risgiau o gaethwasiaeth fodern a masnachu pobl yn ei gadwyni cyflenwi ac yn ei fusnes mae'r Brifysgol yn bwriadu darparu hyfforddiant i staff penodol eraill hefyd. Bydd yn argymell hefyd bod ei bartneriaid busnes yn darparu hyfforddiant i'w staff a'u cyflenwyr a'u darparwyr.

8. Effeithiolrwydd wrth oresgyn caethwasiaeth a masnachu pobl

8.1 Er gwaethaf y meysydd a nodwyd yn y ddogfen hon, mae'r Brifysgol yn bwriadu adolygu a datblygu pob un o'r ymrwymiadau allweddol a nodwyd yng Ngod Ymarfer Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi Llywodraeth Cymru, trwy gydol y flwyddyn ariannol nesaf, a'u defnyddio i bennu dangosyddion perfformiad allweddol i sicrhau pa mor effeithiol y bu yn sicrhau (cyn belled ag y bo'n rhesymol bosibl) nad yw caethwasiaeth a masnachu pobl yn digwydd yn unrhyw rhan o fusnes na chadwyni cyflenwi'r Brifysgol.

Maxine Penlington OBE
Chair, Bwrdd Llywodraethwyr
Prifysgol Glyndŵr Wrecsam

Dyddiad: 30 Tachwedd 2018

Cymeradwywyd: Pwyllgor Archwilio 16 Tachwedd 2018 (cofnod 18.32)

Consortiwm Pwrcasu Prifysgolion y Gogledd Orllewin

Datganiad Caethwasiaeth Fodern Consortiwm Pwrcasu Prifysgolion y Gogledd Orllewin (NWUPC Ltd) 2016/2017

Cyhoeddwyd y datganiad hwn yn unol ag Adran 54 Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 y Deyrnas Unedig. Mae'n nodi'r camau a gyflwynwyd gan Gonsortiwm Pwrcasu Prifysgolion y Gogledd Orllewin Cyfyngedig (NWUPC Ltd) yn ystod y flwyddyn ariannol yn diweddu 31 Gorffennaf 2017 i atal caethwasiaeth fodern a masnachu pobl yn ein busnes a'n cadwyni cyflenwi.

Cyflwyniad

Mae caethwasiaeth, caethwasanaeth, llafur gorfodol a masnachu pobl (Caethwasiaeth Fodern) yn faterion sy'n peri pryder cynyddol, sy'n berthnasol i bob rhanbarth, sector ac economi. Mae NWUPC Ltd wedi ymrwymo i Bolisi Caffael Cynaliadwy, wedi'i fabwysiadu gan holl aelodau consortia Procurement England Limited (PEL), ein cyfrwng ar y cyd ar gyfer rheoli prosiectau gwella a datblygu trwy gydweithredu o ran caffael ar gyfer addysg uwch yn Lloegr; ac agwedd dim goddefiant tuag at gaethwasiaeth fodern yn ein cadwyni cyflenwi.

Ein Strwythur a'n Cadwyni Cyflenwi

43 o Aelodau	26 Fframwaith	207 o Gyflenwyr	+ £200Miliwn o wariant

Mae Consortiwm Pwrcasu Prifysgolion y Gogledd Orllewin (NWUPC Ltd) yn sefydliad prynu proffesiynol, nid er elw, dan berchnogaeth ei Aelodau, yn y sectorau addysg uwch a phellach, y celfyddydau, gwyddorau, iechyd a diwylliannol. Mae NWUPC Ltd yn bodoli i ddarparu strwythur i'w aelodau sicrhau gwerth am arian ar y cyd trwy gaffael nwyddau a gwasanaethau'n gydweithredol, heb achosi niwed i eraill.

Er bod trosiant blynyddol NWUPC Ltd yn llawer is na'r trothwy ar gyfer y gofyniad i gyhoeddi datganiad dan y Ddeddf, mae'r gwariant blynyddol gan ein Haelodau trwy gytundebau cyflenwi NWUPC Ltd, sydd dros £220 miliwn, yn gwarantu datganiad ar y risgiau sydd ymhlyg yn ein cadwyni cyflenwi a'r camau rydym ni'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r rhain.

Mae ein cadwyni cyflenwi yn berthnasol i'r meysydd categori isod:

Offer a Gwasanaethau Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu	Rheoli Ystadau a Chyfleusterau	Offer a nwyddau traul labordai	Gwasanaethau Proffesiynol

Offer a chyflenwadau swyddfa	Adnoddau Llyfrgell	Teithio

Mae gan yr holl Fframweithiau yn y categorïau hyn wahanol lefelau risg ynghlwm â nhw. Aseswyd y risgiau gan ddefnyddio'r Dull Marrakech. Mae dogfennau strategaeth pob Fframwaith yn pennu'r lefel risg a'r camau gweithredu priodol a ystyriwyd.

Polisïau a rheolaethau cytundebol yng nghyswllt Caethwasiaeth a Masnachu Pobl

Rydym ni'n parhau i ddatblygu ein Strategaeth Caffael Cynaliadwy ac yn parhau'n ymrwymedig i gefnogi Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Llywodraeth y Deyrnas Unedig i weithredu Egwyddorion Arweiniol y Cenhedloedd Unedig ar Fusnes a Hawliau Dynol. Mae gennym amserlen i ddiweddaru ein Polisi a'n Strategaeth Caffael Cyfrifol yn fuan, gan ychwanegu Datganiad Atal Caethwasiaeth a Masnachu Pobl.

Prosesau diwydrwydd dyladwy yng nghyswllt Caethwasiaeth a Masnachu Pobl

Fel rhan o'n hymarfer llunio adroddiad yn y flwyddyn gyntaf mynegwyd ymrwymiad i ddeall ein cadwyni cyflenwi yn well y tu hwnt i'r haen gyntaf ac i weithio i sicrhau mwy o dryloywder a chyfrifoldeb tuag at y bobl sy'n gweithio ynddynt. Rydym yn ail ddatgan yr ymrwymiad hwn yn ein hail flwyddyn ac fe'i cefnogir gan yr isod:

Mater a nodwyd	Gweithredu	Ymrwymiad i'r dyfodol
Diffyg tryloywder yn y Gadwyn Gyflenwi	Cynnwys cwestiynau yn ein holl ddogfennau tendro safonol yn ei gwneud yn ofynnol datgelu, fel isafswm, gyflenwyr Haen 2	Mapio cadwyn gyflenwi yr holl gyflenwyr ar y cytundebau fframwaith a nodwyd fel rhai risg uchel
Diffyg trosgolwg a manylion o ran methodoleg archwilio	Cynnwys cwestiwn ynghylch archwilio'r ffatri gyflenwi, yn cynnwys archwilio gan drydydd parti	Gofyniad darparu adroddiadau archwilio
Dirnadaeth cyflenwyr bod ymrwymiadau Caethwasiaeth Fodern wedi eu cyfyngu i ofyniad adroddiadau Adran 54	Cynnwys cwestiwn ynghylch sut mae'r cyflenwr yn cydymffurfio gyda'r Ddeddf Caethwasiaeth Fodern, yn cynnwys hyfforddiant, asesiad risg, diwydrwydd dyladwy a pholisïau i gwmpasu cyflenwyr y tu hwnt i'r isafswm trosiant arianol	Ymgyrchoedd ymgysylltu gyda ac adddysgu cyflenwyr i ehangu eu dealltwriaeth o Gaethwasiaeth Fodern a mynd y thu hwnt i ddatganiad

Gweithredu i fynd i'r afael â Chaethwasiaeth Fodern

Mae NWUPC Ltd yn parhau i ddefnyddio'r pecyn 'NETpositive Supplier Engagement Tool' i ymateb yn rhagweithiol i'r Ddeddf Caethwasiaeth Fodern yn ein cadwyni cyflenwi. Rydym ni'n dehongli'r ymrwymiad i ddileu Caethwasiaeth Fodern mewn termau ehangach na'r hyn a ragnodir dan y Ddeddf ac yn annog ein holl gyflenwyr, faint bynnag yw maint eu trosiant blynyddol, i wneud ymrwymiad cyhoeddus i weithredu yn erbyn Caethwasiaeth Fodern. Mae'r pecyn yn caniatáu i ni ddeall canran y cyflenwyr sy'n cydnabod Caethwasiaeth Fodern fel problem i'w busnes, adnabod y camau gweithredu i'w cyflwyno ganddynt i fynd i'r afael â Chaethwasiaeth Fodern; a chanfod y cyflenwyr hynny nad ydynt yn cydnabod Caethwasiaeth Fodern fel rhywbeth i'w ystyried.

Ymwybyddiaeth ynghylch y Ddeddf Caethwasiaeth Fodern ymhlith ein sylfaen cyflenwyr:

Lle rydym ni	Lle rydym ni angen bod
96%	100%

Cyflenwyr wnaeth nodi Caethwasiaeth Fodern fel problem i'w busnes:

7%

Mae'r data hwn wedi caniatáu i ni wahaniaethu ymatebion yn ôl math o fusnes a blaenoriaethu cyflenwyr mewn meysydd risg uwch, fel man cychwyn. Wrth symud ymlaen bydd NWUPC Ltd yn defnyddio'r data hwn i dargedu'r sefydliadau hynny sy'n datgan nad yw Caethwasiaeth Fodern yn broblem i'w busnes gydag ymgyrch addysgu ynhylch pa mor gyffredin yw Caethwasiaeth Fodern.

Hyfforddiant ar Gaethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl

- Mae tîm Contractau NWUPC Ltd wedi cwblhau modiwl hyfforddiant ar-lein y Sefydliad Siartredig Pwrcasu a Chyflenwi ynghylch Caeffael a Chyflenwi Moesegol.
- Mae holl aelodau'r sefydliad wedi gwylio'r fideo 'HorseTrading' gan yr Awdurdod Meistri Gangiau a Chamdrin Llafur.
- Cafodd aelodau Grŵp Categori Penaethiaid Caffael NWUPC gyflwyniad gan Andy Davies, Cyfarwyddwr Consortiwm Pwrcasu Prifysgolion Llunain (LUPC) ar Gaethwasiaeth Fodern a Chaffael Cyhoeddus.

Julie-Ann Garton
Rheolwr Gyfarwyddwr
Consortiwm Pwrcasu Prifysgolion y Gogledd Orllewin (NWUPC Ltd)

ATODIAD 2

CONSORTIWM PWRCASU ADDYSG UWCH CYMRU

Cod Ymarfer: Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi
Cylch Gwaith y Gweithgor

Y Cyd-destun

Sefydlwyd y Cod Ymarfer gan Lywodraeth Cymru i gefnogi datblygu cadwyni cyflenwi mwy moesegol i gyflawni contractau i sefydliadau sector cyhoeddus a mudiadau trydydd sector yng Nghymru sy'n derbyn arian cyhoeddus.

Dyluniwyd y Cod i sicrhau bod gweithwyr mewn cadwyni cyflenwi'r sector cyhoeddus wedi'u cyflogi'n foesegol ac yn unol ag ysbryd ac ystyr deddfau'r Deyrnas Unedig, yr Undeb Ewropeaidd a rhyngwladol. Mae'r Cod yn cwmpasu'r materion cyflogaeth isod:

- Caethwasiaeth Fodern a chamdrin hawliau dynol
- Cosbrestru
- Hunangyflogaeth ffug
- Defnyddio cynlluniau ymbarel a chontractau dim oriau yn annheg a
- Talu'r Cyflog Byw

Wrth ymrwymo i'r Cod bydd sefydliadau yn cytuno i gydymffurfio â 12 ymrwymiad wedi'u dylunio i ddileu caethwasiaeth fodern a chefnogi arferion cyflogi moesegol. Mae'r holl sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru wedi ymrwymo i'r Cod.

Bydd y Gweithgor yn darparu fforwm i aelodau weithio'n gydweithredol ar elfennau hynny'r Cod sy'n cael effaith uniongyrchol ar brosesau caffael. Un o'r amcanion allweddol a fydd yn sylfaen i weithgareddau'r Gweithgor fydd defnyddio adnoddau'n effeithiol a rhannu gwybodaeth ac arferion gorau.

1. Cyfansoddiad

1.1 Aelodaeth

Bydd aelodaeth y Gweithgor yn cynnwys o leiaf un cynrychiolydd o bob sefydliad sy'n aelod "llawn". Gellir gwahodd aelodau a chynrychiolwyr "cyswllt" o sefydliadau allanol i gymryd rhan yn unol â disgresiwn Cadeirydd y Grŵp.

1.2 Cadeirydd

Bydd y Cadeirydd, ar y cyd gyda'r Ysgrifennydd, yn arwain y Gweithgor i sicrhau y gwneir cynnydd o ran y rhaglen weithgareddau gytunedig; bod cynrychiolwyr y Gweithgor yn cael eu hannog i gymryd rhan yn weithredol; a bod ymddygiad cyffredinol y Gweithgor yn effeithiol ac effeithlon. Bydd y Cadeirydd yn gwasanaethu am gyfnod o dair blynedd.

Pan ddaw cyfnod dyletswydd cytunedig y Cadeirydd i ben, etholir Cadeirydd newydd neu ailetholir y Cadeirydd presennol.

1.3 Atebolrwydd

Bydd y Gweithgor yn atebol i'r Grŵp Penaethiaid Caffael ac yn adrodd i'r Grŵp yn rheolaidd.

1.4 Ysgrifennydd

Bydd y Grŵp yn penodi Ysgrifennydd am gyfnod cytunedig. Yn gyffredinol bydd yr Ysgrifennydd yn hwyluso gweithrediad y Gweithgor; yn cytuno ar yr agenda ar y cyd gyda'r Cadeirydd; yn paratoi ac yn goruchwylio paratoi cofnodion y cyfarfodydd; ac yn sicrhau bod y Gweithgor yn gwneud cynnydd priodol yn unol â'i raglen gweithgareddau.

1.5 Gwasanaethau ysgrifenyddol

Bydd aelodau'r Gweithgor yn cytuno ar y trefniadau ar gyfer gwasanaethau ysgrifenyddol un ai ymhlith ei gilydd neu'n eithriadol gyda swyddfa Rheolwr Caffael Consortiwm Pwrcasu Addysg Uwch Cymru.

1.6 Cyfarfodydd

Bydd y Gweithgor yn cyfarfod yn chwarterol yn arferol, neu fel y cytunir gan y gweithgor, yn dibynnu ar y cynlluniau gwaith a'r amserlenni cysylltiedig.

2. Cylch Gwaith

2.1 Darparu fforwm i drafod a gweithredu'r Cod Ymarfer: Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi ymhlith cymuned y Sector Addysg Uwch yng Nghymru.

2.2 Gweithio gyda'r aelodau i sicrhau bod yr holl ofynion statudol perthnasol, yn cynnwys cyhoeddi Datganiad Caethwasiaeth Fodern yn flynyddol, yn cael eu cyflawni.

2.3 Ystyried a gweithredu dull effeithiol ac effeithlon o weithio trwy gydweithredu priodol.

2.4 Monitro ac adrodd ac y cynnydd a wnaed o ran cynlluniau gweithredu sefydliadau.

2.5 Annog adolygu telerau ac amodau sefydliadau'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn ystyried yr ymrwymiadau a fabwysiadwyd dan y Cod Ymarfer.

2.6 Datblygu a chynnal dogfennau safonol.

2.7 Adnabod a chynnal un man cadw data ar gyfer rhannu gwybodaeth a dogfennau.

2.8 Cydweithredu'n allanol fel bo'n briodol, un ai gyda sefydliadau eraill wedi'u lleoli yng Nghymru sydd wedi ymrwymo i'r Cod, neu gyda chyrff eraill y sector Addysg Uwch.